Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Newid ardrethi busnes yng Nghymru

## Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl os gwelwch yn dda



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Diwygio Ardrethi Annomestig yng Nghymru**'.

**Medi 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 26**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Mae cyrff eraill yn gyfrifol am rai gweithgareddau yn ymwneud gydag ardrethi busnes, yn seiliedig ar y rheolau rydyn ni'n eu gosod. Er enghraifft Asiantaeth y Swyddfa Brisio

Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**E-bost:**

LGFRconsultations@gov.wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**

**Cyflwyniad......................................................................................................4**

**Y newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud i ardrethi busnes..................7**

1. Gwneud yn siŵr bod y swm rydych chi'n ei dalu mewn ardrethi busnes yn gywir yn fwy aml.................................................................... 7

2. Rhyddhad ac Esemptiadau.................................................................. 13

3. Gweithio allan ardrethi busnes........................................................ 15

4. Gwella sut rydyn ni'n prisio eiddo ac yn cadw gwybodaeth........ 17

5. Newid trethi lleol yn y dyfodol......................................................... 23

**Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.....................................25**

**Geiriau anodd..........................................................................................26**

# Cyflwyniad




Rydyn ni eisiau gwneud rhai newidiadau i **ardrethi busnes** yng Nghymru.



Mae ardrethi busnes yn cael eu galw yn ffurfiol yn **Ardrethi Annomestig**. Er eu bod yn aml yn cael eu galw yn ardrethi busnes, maen nhw hefyd yn berthnasol i gyrff eraill, yn cynnwys elusennau a gwasanaethau cyhoeddus fel ysgolion ac ysbytai. Fe fyddwn ni yn eu galw nhw yn ardrethi busnes yn y ddogfen yma.



Treth sydd yn cael ei thalu i Awdurdod Lleol am **eiddo** sydd yn cael ei ddefnyddio am resymau busnes ydy ardrethi busnes.


Mae **eiddo** yn gallu meddwl pethau fel:



- Adeiladau fel siopau, swyddfeydd a ffatrioedd.
- Byrddau sydd yn cael eu defnyddio ar gyfer hysbysebion
- Ceblau fel ceblau ffôn.
- Adeiladau cyhoeddus fel ysbytai



Mae Awdurdodau Lleol yn defnyddio’r arian maen nhw yn ei gael o ardrethi busnes i helpu i dalu am wasanaethau lleol. Fel ysgolion a thrafnidiaeth cyhoeddus.




Mae fel y dreth gyhngor rydych chi’n ei dalu am eich cartref.

Rydych chi’n talu ardrethi busnes os:



- Mae gennych chi eiddo sydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer busnes.
- Rydych chi yn rhentu eiddo sydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer busnes.



Mae pobl sydd yn talu ardrethi busnes yn cael eu galw yn dalwyr ardrethi.




Mae’r ddogfen yma am y newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud i ardrethi busnes.



Rydyn ni’n meddwl y bydd y newidiadau yma yn gwneud ardrethi busnes yn fwy teg ac yn haws i bawb.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi’n feddwl am ein hawgrymiadau.



Rydych chi’n gallu gweld sut i roi gwybod inni beth rydych chi’n feddwl ar **dudalen 25**.




Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi’n feddwl os gwelwch yn dda erbyn diwedd y diwrnod ar **14 Rhagfyr 2022**.

# Y newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud i ardrethi busnes

## 1. Diweddaru faint rydych chi'n dalu mewn ardrethi busnes yn fwy aml




Ar hyn o bryd mae faint mae busnesau yn ei dalu mewn ardrethi busnes yn cael ei edrych arno bob 5 mlynedd. Mae **Asiantaeth y Swyddfa Brisio** yn gwneud hyn pan rydyn ni'n gofyn iddyn nhw.



Mae **Asiantaeth y Swyddfa Brisio** yn gwneud tasgau inni  i helpu i ardrethi busnes rede gyn ddidrafferth. Mae hyn yn meddwl gweithio allan gwerth ardrethol pob eiddo. Maen nhw yn gweithio ar eu pen eu hunain gan ddilyn y rheolau rydyn ni yn eu gosod iddyn nhw.



Dyna pryd rydyn ni yn edrych i weld os ydych chi'n talu'r swm cywir o ardrethi busnes.



Rydyn ni'n meddwl bod 5 mlynedd yn rhy hir.




Efallai bod llawer o newidiadau yn digwydd dros 5 mlynedd a fydd yn effeithio faint ddylech chi fod yn ei dalu.




Er enghraifft:

- Newidiadau yn y gost o redeg busnes.
- Newidiadau i’r eiddo ei hun.




Rydyn ni’n meddwl y dylen ni edrych ar ardrethi busnes bob 3 blynedd.




Fe fydd **Asiantaeth y Swyddfa Brisio** angen gwybodaeth gan dalwyr ardrethi i helou i wneud hyn.

## Sut rydyn ni'n edrych ar ardrethi busnes




Pan rydyn ni'n edrych i weld faint sydd yn cael ei dalu mewn ardrethi busnes rydyn ni'n edrych ar faint oedd gwerth eich eiddo **2 flynedd yn ôl**.



Mae **gwerth** eich eiddo 2 flynedd yn ôl yn dweud wrthyn ni os dylai eich ardrethi busnes fynd i fyny neu i lawr.

**Gwerth ardrethol** ydy faint o arian fyddai eich eiddo yn ei gostio i'w rentu am flwyddyn.



Er enghraifft fe fydd edrych ar y gwerth yn 2023 yn edrych ar faint oedd gwerth eich eiddo yn 2021.




Mae hyn yn meddwl bod bwlch rhwng:

- Newidiadau i werth eich eiddo a
- Newidiadau i daliadau eich ardrethi busnes.




Rydyn ni'n meddwl bod y bwlch yn rhy hir. Rydyn ni eisiau ei wneud yn fyrrach yn y dyfodol os rydyn ni'n gallu.

## Gwybodaeth gan dalwyr ardrethi




Fe fydd **Asiantaeth y Swyddfa Brisio** angen gwybodaeth gan dalwyr ardrethi i'n helpu ni i edrych ar ardrethi busnes.



Fe fydd y math o wybodaeth rydych chi'n ei roi yn dibynnu os ydych chi yn:

- Perchennog yr eiddo sydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer busnes.
- Rhentu'r eiddo sydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer busnes.



Fe fydd angen i chi ddweud wrthyn ni am unrhyw newidiadau i:

- Yr eiddo.
- Y busnes mae'r eiddo yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer.
- Y bobl sydd yn defnyddio'r eiddo ar gyfer busnes.




Fe fyddwch chi'n gallu rhoi'r wybodaeth yma inni drwy wasanaeth ar-lein.




Fe fydd y gwasanaeth yn dweud wrthych chi pa wybodaeth rydyn ni ei angen. Ac erbyn pryd rydyn ni ei angen.



Fe fydd hyn yn ein helpu i wneud yn siŵr eich bod yn talu’r swm cywir mewn ardrethi busnes.

## Dirwyon a chosbau



**Dirwy** ydy arian mae’n rhaid i chi ei dalu fel cosb am dorri’r gyfraith. Mae hefyd yn cael ei alw yn gosb.

Efallai bydd rhaid i chi dalu **dirwy** os:



- Rydych chi’n dewis rhoi gwybodaeth inni rydych chi’n gwybod sydd yn anghywir.

  Yn y rhan fwyaf o achosion y **ddirwy** fwyaf am hyn fydd 3% o werth eich eiddo a £500.

  **Neu**




  Mewn achosion **difrifol** mae’r gosb fwyaf am hyn yn gallu bod hyd at 3 mis yn y carchar neu **dirwy** o £1,000.



- Dydych chi ddim yn rhoi’r wybodaeth rydyn ni ei angen am reswm arall.
  Y **ddirwy** fwyaf am hyn fydd yr uwch o 2% o werth **neu** £900.



Fe fyddwch chi'n cael llythyr os ydyn ni'n meddwl y dylech chi dalu **dirwy**. Mae hwn yn cael ei alw yn **hysbysiad cosb**.




Fe fydd yr **hysbysiad cosb** yn dweud wrthych chi:

- Pam rydych chi wedi cael dirwy.
- Faint sydd angen i chi ei dalu.
- Erbyn pryd mae rhaid i chi dalu eich dirwy.



Os nad ydych chi yn ateb **hysbysiad cosb**, fe fydd rhaid i chi dalu'r ddirwy a £60 ychwanegol y **diwrnod**.



Rydych chi'n gallu gofyn am adolygiad os ydych chi yn meddwl bod eich **dirwy** yn anghywir.



Rhaid i chi ofyn am adolygiad o fewn 30 diwrnod i gael yr **hysbysiad cosb**.

# 2. Rhyddhad ac Esemptiadau

Weithau mae rhesymau pam eich bod yn gallu:



- Talu swm is o ardrethi busnes. Mae hyn yn cael ei alw yn **rhyddhad**.



- Peidio cael eich eiddo wedi ei brisio ar gyfer ardrethi busnes. Mae hyn yn cael ei alw yn **esemptiad**.



Mae gennym sawl **rhyddhad** i fusnesau bach, elusennau ac eiddo gwag.




Rydyn ni hefyd wedi defnyddio **rhyddhad** i gefnogi busnesau yn ystod y pandemig.



Fe fyddwn ni'n edrych ar ein **rhyddhad** i weld os ydyn nhw'n gweithio yn y ffordd rydyn ni eisiau iddyn nhw weithio




Ar hyn o bryd dim ond rhai rheolau rydyn ni'n gallu eu gwneud am **ryddhad** ac **esemptiadau**.



Mae hyn yn cyfyngu ar y penderfyniadau rydyn ni'n gallu eu gwneud yng Nghymru.



Rydyn ni  eisiau rhagor o reolaeth dros **ryddhad** ac **esemptiadau** yng Nghymru.

Rydyn ni eisiau gallu:



- Penderfynu pwy ddylai gael rhyddhad.
- Penderfynu pwy sydd ddim yn gorfod talu ardrethi busnes.
- Helpu awdurdodau lleol i roi eu rhyddhad eu hunain i fusnesau.

# 3. Gweithio allan ardrethi busnes




Mae'r swm rydych chi'n ei dalu mewn ardrethi busnes yn dibynnu ar y **gwerth ardrethol**.

Mae faint ydy gwerth eich eiddo yn dibynnu ar:



- Maint yr eiddo.
- Lle mae'r eiddo.
- Sut mae'r eiddo yn cael ei ddefnyddio.




Mae **gwerth ardrethol** eich eiddo yn cael ei luosogi gan y **lluosydd cenedlaethol**.




Mae'r **lluosydd cenedlaethol** yn rhif yn seiliedig ar brisiau nwyddau a gwasanaethau ar y pryd.

Er enghraifft:



- Os ydy'r **lluosydd cenedlaethol** yn 0.535
- Ac mae **gwerth ardrethol** eich eiddo yn £20,000
- 0.535 X 20,000 = 10,700
- Y swm rydych chi'n ei dalu mewn ardrethi busnes ydy £**10,700**.
- Yna mae **rhyddhad** yn gallu lleihau'r swm yma.




Gallwch hefyd wirio eich gwerth ardrethol ar-lein yn https://www.gov.uk/find-business-rates.



Yng Nghymru mae'r **lluosydd cenedlaethol** yr un fath i bob talwr ardrethi.

Rydyn ni'n meddwl y dylen ni allu ei osod yn wahanol yn dibynnu ar:



- **Gwerth ardrethol** eich eiddo.
- Y busnes sydd yn cael ei gynnal yn eich eiddo.
- Lle mae eich eiddo.

# 4. Gwella sut rydyn ni'n prisio eiddo a gwneud newidiadau

## Newidiadau i werth ardrethol



Rydyn ni'n edrych ar **werth ardrethol** eich eiddo pan rydyn ni'n edrych i weld faint rydych chi'n ei dalu mewn ardrethi busnes.



Fe fydd y **gwerth ardrethol** yn effeithio ar faint rydych chi'n dalu mewn ardrethi busnes.




Fe fydd edrych ar **ardrethi** busnes yn fwy aml yn ein helpu ni i ailbrisio eich eiddo i gyd-fynd gyda newidiadau mewn:

- Nwyddau a gwasanaethau mae'r wlad yn eu gwneud a'u defnyddio. Mae hyn yn cael ei alw yn economi.
- Cost arferol rhentu eiddo busnes ar yr amser yna.



Mae **gwerth ardrethol** eich eiddo yn gallu newid hefyd os oes newidiadau i:

- Yr eiddo ei hun. Er enghraifft os ydych chi yn tynnu waliau i lawr yn yr adeilad.
- Yr ardal lle mae'r eiddo. Er enghraifft os ydy ffordd newydd yn meddwl bod llai o bobl yn cerdded heibio eich siop.

Fydd **gwerth ardrethol** eich eiddo ddim yn newid rhwng gwiriadau oherwydd:




- Newidiadau yn y gyfraith




- Newidiadau i'r rheolau i rai busnesau sydd angen trwydded i wneud eu gwaith. Er enghraifft gofal plant neu yrru tacsi.
- Cyngor gan gorff cyhoeddus fel yr Heddlu neu Awdurdod Lleol.

Rydych chi'n gallu gofyn inni edrych ar eich ardrethi busnes os ydy unrhyw un o'r pethau uchod yn achosi newid i:



- Eich eiddo.
- Yr ardal lle mae eich eiddo.

## Hysbysiadau cwblhau



Fe fydd awdurdodau lleol yn anfon **hysbysiad cwblhau** ar gyfer unrhyw adeiladau newydd.




Mae **hysbysiad cwblhau** yn dweud wrthyn ni y dyddiad y bydd yr adeilad yn barod ar gyfer busnes.




Pan fyddwn ni wedi cael yr **hysbysiad cwblhau** fe fyddwn ni yn edrych ar **werth ardrethol** yr adeilad.



Fe fydd hyn yn dweud wrthych chi faint mae angen i chi ei dalu mewn ardrethi busnes.




Fe fydd rhaid i chi ddechrau talu ardrethi busnes o’r dyddiad y mae’r adeilad yn barod i gael ei ddefnyddio.



Weithiau mae hen adeiladau yn cael eu gwneud i fyny yn lle adeiladu un newydd.



Does dim hysbysiad cwblhau ar gyfer adeiladau sydd yn cael eu gwneud i fyny.

Mae hyn yn meddwl dydyn  ni ddim bob amser yn gwybod:



- Pryd mae adeilad sydd wedi cael ei wneud i fyny yn barod i gael ei ddefnyddio.
- Pryd i weithio allan gwerth yr adeilad.
- Pryd i ddechrau codi ardrethi busnes.



Rydyn ni eisiau dechrau defnyddio **hysbysiadau cwblhau** ar gyfer adeiladau sydd yn cael eu gwneud i fyny.

Fe fydd hyn yn meddwl:



- Rydyn ni'n gwybod y dyddiad y bydd yr adeilad yn barod i gael ei ddefnyddio.
- Rydyn ni'n gallu prisio'r adeilad.
- Rydyn ni'n gallu codi ardrethi busnes ar yr amser cywir.

# Rhestr ardrethi ganolog

Mae pob eiddo busnes yng Nghymru wedi eu rhestru.

Mae 2 restr:



1. Y rhestr Ardrethi Leol. Mae un yn cael ei chadw ar gyfer pob Awdurdod Lleol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

2. Y rhestr Ardrethi Ganolog. Yn cael ei chadw gennym ni yn Llywodraeth Cymru.



Mae ein rhestr ni yn cynnwys eiddo fel:

- Ceblau, ar gyfer pethau fel y rhyngrwyd a ffonau.
- Piblinellau ar gyfer pethau fel nwy a dŵr.




Ar hyn o bryd rydyn ni angen gwneud newidiadau i'r gyfraith cyn inni allu gwneud unrhyw newidiadau i'n rhestr.




Mae hyn yn achosi oedi hir.



Rydyn ni eisiau cael mwy o reolaeth dros ein rhestr. Dydyn ni ddim eisiau gorfod newid y gyfraith i ddweud ein bod yn gallu gwneud mân newidiadau.

## Rheol i stopio pobl osgoi ardrethi busnes



Mae rhai talwyr ardrethi yn ceisio osgoi talu'r swm cywir mewn ardrethi busnes.



Pan nad ydy talwyr ardrethi yn talu'r swm cywir mewn ardrethi busnes rydyn ni yn colli miliynau o bunnoedd bob blwyddyn.



Mae hyn yn arian a ddylai fod wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi gwasanaethau cymunedol.




Rydyn ni eisiau rheol i'n helpu ni i ddelio gyda pobl sydd yn osgoi talu ardrethi busnes.




Efallai ein bod eisiau defnyddio'r rheol i roi rhagor o bŵer i Awdurdodau Lleol i ddelio gyda'r talwyr ardrethi yma.





Fe fydd yn cael ei alw yn **rheol gwrth osgoi cyffredinol**.

## 5. Newid trethi lleol yn y dyfodol

Rydyn ni wedi bod yn edrych ar ffyrdd i wella'r holl drethi lleol, yn cynnwys:




- Treth Gyngor ac
- Ardrethi busnes.



Yn 2021 fe wnaethon ni ysgrifennu dogfen o’r enw Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru:Crynodeb o Ganfyddiadau.

Mae’r ddogfen yma yn edrych ar ddechrau treth gwerth tir leol.



Gallai treth gwerth tir leol fod yn lle ardrethi busnes a threth gyngor yn y dyfodol.



Fe fyddwn ni yn:

- Edrych i mewn i gael treth gwerth tir leol.
- Meddwl am sut y byddai hyn yn gweithio i Gymru.
- Meddwl am sut y gallwn ei chyflwyno yng Nghymru.

# Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl



Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud i ardrethi busnes yng Nghymru os gwelwch yn dda.




Anfonwch eich sylwadau atom ni os gwelwch yn dda erbyn diwedd y diwrnod ar **Ddydd Mercher 14 Rhagfyr 2022**.




Rydych chi'n gallu dweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl drwy lenwi ein ffurflen ar-lein.

Neu drwy ei lawrlwytho a llenwi ein ffurflen ymateb a'i hanfon:



**E-bost**: LGFR.Consultations@gov.wales



**Post:**

Cangen Polisi Ardrethi Annomestig

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ.

# Geiriau Anodd

### Dirwy

Dirwy ydy arian mae'n rhaid i chi ei dalu fel cosb am dorri'r gyfraith. Mae'n cael ei alw yn gosb hefyd.

### Gwerth ardrethol

Gwerth ardrethol ydy faint o arian fyddai eich eiddo yn ei gostio i'w rentu am flwyddyn.

### Swyddfa yr Asiantaeth Brisio

Mae Swyddfa yr Asiantaeth Brisio yn gwneud tasgau inni i helpu i gadw ardrethi busnes i redeg heb drafferth. Mae hyn yn cynnwys gweithio allan gwerth ardrethol pob eiddo. Maen nhw yn gweithio ar eu pen eu hunain, yn dilyn y rheolau rydyn ni yn eu gosod iddyn nhw.